Rhifyn 32 - Hydref 2015

# Ar Dân!









## Yn y rhifyn hwn...

- Hanesion Teithiau Tramor
- Cwrdd â chyn-aelod
- Swyddogion newydd
- Digwyddiadau
- Canlyniadau







www.yfc-ceredigion.org.uk

@CeredigionYFC

# Swyddogion Newydd: Pwy yw Pwy?

**Cadeirydd y Sir:** Emyr Evans **Cyn-glwb:** Felinfach
**Hoff gystadleuaeth pan yn aelod?** Y Ddrama
**Beth hoffet ti ei gyflawni fel cadeirydd?** Codi rhif aelodau cyswllt ac annog aelodau i ddod i leisio eu barn ym mhwyllgorau'r Sir, ond yn fwy na dim, sicrhau bod Ceredigion yn parhau i fod y Sir orau yng Nghymru.





**Llywydd y Sir:** Edwina Jones
**Cyn-glwb:** Llangwyryfon
**Hoff weithgaredd clwb?** Rali.
**Unrhyw arferion gwael?** Gallu bod yn swnllyd!!

**Is-Gadeirydd y Sir:** Mererid Davies
**Cyn-glwb:** Pontsian
**Hoff atgof fel aelod?** Cymdeithasu gyda chyd-aelodau o'r sir gyfan boed ar wyliau yn Benidorm neu ar lwyfan sioe'r dathlu.
**Beth yw dy gyngor i aelodau newydd?** W tyff! Am fod gymaint o gyfleon o fewn y mudiad beth am drial 'neud un cystadleuaeth neu weithgaredd gwahanol bob blwyddyn?



**Is-Lywydd y Sir:** Geraint Morgan
**Cyn-glwb:** Bwlch-llan
**Hoff atgof fel aelod?** Cael cynrychioli y sir ar lefel cenedlaethol.
**Sut ydych chi'n ymlacio?** Ma' popeth tu fas i'r gwaith yn ymlacio!





Hwyl fawr Mared! Diolch am dy holl waith, a phob lwc.



Y ddwy yn joio yn yr AGM!




## Cwrdd â threfnydd newydd y Sir.....


**Enw:-** Catrin Reynolds
**Llysenw:-** Cats
**Byw:-** Saron, Llandysul
**Cyn-Clwb:-** Troedyraur

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod?** Popstar – yn un o'r Spice Girls falle?
**Pwy yw dy arwyr a pham?** Fy rhieni. Mae nhw'n ysbrydoliaeth, ac yn gefn i fi bob amser.
**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?** Naill ai adref gyda'm teulu o flaen tân gyda dished (neu rhywbeth cryfach!) neu allan gyda ffrindiau a'm cariad yn partio a joio!
**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?** Derbyn swydd gyda C.Ff.I Ceredigion.
**Ac yn bersonol?** Graddio o'r brifysgol gyda gradd Dosbarth Cyntaf, a chroesi llinell orffen Hanner Marathon Caerdydd mewn un darn!
**Beth yw dy hoff air?** Wel, dim gair, ond brawddeg dwi'n dweud yn aml y sywddfa, 'Damo Daps Mamgu!' Mae Anne yn chwerthin arnai bob tro!
**Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?** Fy ffôn. Mae'r teclyn yn fy ngalluogi i gysylltu a'm cariad, Gareth, sydd yn byw yn Bath, yn rheolaidd ynghyd a'm teulu a ffrindiau. Mae gyda fi sawl llun a darn o gerddoriaeth gwerthfawr arno ac mae e wedi nghael i allan o dwll sawl tro pan dwi ar goll mewn lle diethr (diolch byth am Google Maps!).
**Y rheswm fe wnes di ymgeisio am y swydd?** Oherwydd fod y swydd nid yn unig yn cynnig y cyfle i weithio gyda mudiad adnabyddus a datblygu sgiliau mewn amryw o feysydd, ond yn fy nghaniatau i gydweithio gyda'r pobol orau yn y byd – y cardis!
**Beth wyt ti am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dy swydd?** Dod i adnabod yr aelodau, swyddogion, arweinyddion a phawb sydd yn nglwm â'r mudiad yn dda ac i sicrhau fy mod yn gweithredu yn gywir ac yn effeithiol drostynt drwy fy ngwaith gyda'r C.Ff.I.



# Diwrnod Allan ar y Fferm




Trefnwyd dau ddiwrnod hynod lwyddiannus i hybu ac i ddathlu ffermio yn Llanerchaeron ar y 18fed a'r 19eg o Fedi. Croesawyd 170 o blant ysgol Cylch Llambed a Thregaron i Lanerchaeron ar y dydd Gwener a bu'r aelodau, cyn-aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r mudiad yn brysur iawn yn cynnal gweithgareddau, arddangosfeydd a sesiynau i addysgu'r plant am amaethyddiaeth. Ymatebodd y plant yn wych a chafwyd diwrnod wrth foddau pawb. Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus hefyd ar y dydd Sadwrn wrth i fil o bobl ddod drwy'r gatiau i gael blas go iawn ar fyd ffermio. Roedd cyfle eto i'r cyhoedd i weld arddangosfeydd, dysgu am anifeiliaid a pheiriannau, dysgu am gyrsiau ffermio sydd ar gael a phrynu nwyddau oddi ar stondinau o gynnyrch lleol! Roedd hi'n ddiwrnod i'r teulu cyfan a diolch i bawb am bob cefnogaeth i sicrhau dau ddiwrnod gwerth chweil i ddathlu ffermio.














Ar y 26ain o Fedi mentrodd 13 o'r pwyllgor lawr am ardal y brif ddinas ar daith addysgiadol! Ymweld â fferm Rhodri a Gaynor Davies a'r teulu yn Rosedew, Llantwit Major odd y rheswm neu Rhodri Pentre' fel mae'n cael ei adnabod o hyd. Maent bellach yn ffermio 2,500 erw: ffermio âr, tyfu gwenith, barlis, maize ac yn ddiweddar, tatws. Mae Rhodri erbyn hyn yn contraction, a fe sydd hefyd yn gwneud y silwair o amgylch maes awyr Caerdydd. Mae nawr yn berchen ar 2 siop gigydd yn yr ardal sef 'Farmers Pantry' lle mae'n gwerthu cig o'i fferm, ond ei brif fusnes erbyn hyn yw twristiaeth a phriodasau. Penderfynodd adnewyddu hen adeiladau ar y fferm i'w gosod i bobl ar eu gwyliau ac i gynnal priodasau, gan eu bod mewn lle delfrydol i ddenu twristiaeth. Mae'r lleoliad yn poblogaidd iawn gyda pharau o ar draws y wlad yn priodi yno- mae'r lle'n llawn am y 2 flynedd nesaf! Mae'r 'Farmers Lodges,' sef bythynnod pren yn llwyddiannus hefyd, ac mae'r busnes 'camping and glamping' yn mynd o nerth i nerth. Agoriad llygad yn wir!

# Taith y Materion Gwledig

**It's a Knock Out y Fforwm Ieuenctid:**

**Yn ennill:** Llangwyryfon















Ffilmio Ffilm hyrwyddo'r Sir = 3ydd

Mynychodd Mererid, Is-gadeirydd y Sir a Bethan, Aelod Hyn y Sir ddigwyddiad Cyfarfod Carwyn ar Nos Iau 8fed o Hydref yn Aberystwyth. Roedd yn rhan o daith Carwyn Jones, y Prif Weinidog o amgylch y wlad i drafod materion cyfoes a gwleidyddol! Holodd Mererid am sefyllfa prisiau llaeth a chig oen a Bethan am ddenu pobl ifanc yn nôl i gefn gwlad ar ôl bod yn y Coleg wrth feddwl bod diffyg gwaith a thai fforddiadwy yng nghefn gwlad yn gyffredinol. Roedd Carwyn yn gefnogol iawn o waith da y CFfI ac yn dweud fod y mudiad yn allweddol i ddatblygiad cefn gwlad.



# AGM Cymru

Aberystwyth oedd lleoliad Cyfarfodydd Blynyddol C.Ff.I. Cymru eleni, gyda'r dref yn llawn aelodau CFfI Cymru. Golff oedd thema'r nos Wener eleni, gyda'r parti' gorffen yn y Pier. Cynhaliwyd y Cyngor a'r Is-bwyllgorau yn yr Hen Goleg ar y dydd Sadwrn, a llongyfarchiadau i Dai Jones, Llanilar am ei ailethol yn lywydd, i Morys Ioan- is-gadeirydd Materion Gwledig; Alaw Aur- is-gadeirydd Digwyddiadau a Marchnata; Nia Medi Jones- is-gadeirydd Hyfforddiant; Esyllt Ellis Jones- is-gadeirydd Teithiau Tramor; Caryl Haf Jones- ysgrifennydd cofnodion Cystadlaethau.









# Diwrnod Maes

1af: Llangwyryfon
Ail: Llangeitho
3ydd: Llanwenog

Stocmon y Flwyddyn Dan 26: 1af-Elizabeth Harries, Pontsian; 2il-Elen Thomas, Pontsian; 3ydd-Delyth Jones, Tregaron.
Tîm dan 26: Pontsian
Beirniad Stoc y Flwyddyn Dan 18: 1af-Eiry Williams, Llangwyryfon; 2il-Dewi Davies, Llanddeiniol; 3ydd-Mirain Richards, Llanddewi Brefi
Tîm dan 18: Llangwyryfon.
Beirniad Stoc y Flwyddyn Dan 14: 1af-Elin Rattray, Trisant; 2il-Bedwyr Siencyn, Talybont; 3ydd-Elin Davies, Llanwenog
Tîm dan 14: Llanddeiniol
Sialens ATV: Pontsian
Trimio Oen: Sian Downes, Llangeitho
Fferm Ffactor Iau: Felinfach
Ffensio Iau: Llangwyryfon
Tractor a Loader: Sion Evans, Talybont
Addurno Cacen: Cerys Evans, Mydroilyn
Ceiliog y Gwynt: Deiniol Organ, Troedyraur
Torch Nadolig: Elin Calan, Llangwyryfon
Ocsiwn Ffug: Llanddewi Brefi
Ffensio Hŷn: Llangwyryfon Gyrru

17 o glybiau
200 o aelodau




















**Rygbi 7 bob ochr:**
Bechgyn: Caerwedros
Merched: Pontsian





Tafarn Ffostrasol Arms
Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion SA44 4SY
Tel: 01239 851348



## Cornel y Clybiau - Pontsian

**Sawl aelod sydd yn eich clwb?** 30
**Ar ba noson ydych chi'n cwrdd?** Nos Lun
**Beth yw eich hoff weithgaredd clwb?** Noson o gemau fel rownderi ac wedyn cael 'take away' ar ôl hynny.
**Beth yw eich hoff cystadleuaeth gyda'r sir?** Y Rali
**Pwy yw 'clown' y clwb?** Rhodri Morris – chwarae triciau ar bawb drwy'r amser!
**Pwy yw 'brêns' y clwb?** Gwen Evans gyda'i llu o syniadau ar gyfer popeth.



# Rali'r Sir

## Enillwyr y Dydd:

Arddangosfa Ffederasiwn: Llangwyryfon
Barnu Gwartheg Charolais
16 oed neu iau: Gethin Evans, Caerwedros
21 oed neu iau: Dyfrig Williams,Llangwyryfon
26 oed neu iau: Dewi Jenkins, Talybont
Tîm: Talybont
Dylunio a Chreu Baner: Caerwedros
Coginio: Guto McAnulty-Jones a Calfin Hunt, Llangeitho
Gosod Blodau: Ceris Jones, Mydroilyn
Crefft: Carwyn Davies, Llanwenog
Cystadleuaeth yr Aelodau: Llanwenog
Dawnsio: Felinfach
Ocsiwn Ffug: Pontsian
Dyma Dy Fywyd: Tregaron
Coedwigaeth: Penparc
Barnu Defaid Beltex:
16 oed neu iau: Elin Rattray, Trisant
21 oed neu iau: Lowri Reed, Llangeitho
26 oed neu iau: Dewi Jenkins, Talybont
Tîm: Trisant
Trin Gwlan: Steffan Nutting, Talybont
Her y Môr-Ladron: Bro'r Dderi
Gwisgo i Fyny: Bro'r Dderi
Cabaret: Llanwenog
Cneifio
21 oed neu iau: Steffan Jenkins, Llanwenog
26 oed neu iau: Ceredig Lewis, Llangwyryfon
Tîm: Tregaron
Barnu Merlod Adran A
16 oed neu iau: Manon Turner, Llangeitho
21 oed neu iau: Lowri Reed, Llangeitho
26 oed neu iau: Gethin Morgan, Bro'r Dderi
Tîm: Llangeitho
Helfa Drysor: Lledrod
Arddangosfa'r Prif Gylch: Bro'r Dderi
Tablo: Talybont
Tynnu'r Gelyn Merched: Llanddewi Brefi
Tynnu'r Gelyn Bechgyn: Llanwenog
Tynnu'r Gelyn Iau: Llanwenog
Gwneud Arwydd: Felinfach

1af Talybont
2il Lledrod
3ydd Llanwenog

18 o glybiau
Dros 400 o aelodau!

Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2014/15
Cyntaf: Llanwenog, Ail: Mydroilyn
Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2014/15 – Lledrod

Ysgrifennydd Gorau: Angela Evans, Tregaron
Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith: Gareth Harries, Llanddeiniol
Aelod mwyaf gweithgar: Caryl Haf Jones, Llanddewi Brefi a Dion Davies, Pontsian;
Aelod iau mwyaf gweithgar: Rhodri Griffiths, Llangwyryfon







**Barnu Stoc**
16 oed neu iau: Manon Turner, Llangeitho;
21 oed neu iau: Lowri Reed, Llangeitho;
26 oed neu iau: Dewi Jenkins, Talybont;
Uchaf yn y Barnu Gwartheg: Dewi Jenkins, Talybont;
Gorau am resymau Cymraeg: Dewi Jenkins, Talybont;
Clwb Gorau yn y Barnu Stoc: Llangeitho;







## Canlyniadau'r Sioe Frenhinol

Dylunio a Chreu Baner: $1^{af}$: Caerwedros
Cneifio: Steffan Jenkins, Llanwenog yn $2^{il}$
Arddangosfa'r Prif Gylch: $1^{af}$: Bro'r Dderi
Barnu Gwartheg Charolais: John Jenkins, Lledrod $1^{af}$; Dyfrig Williams, Llangwyryfon $1^{af}$.
Cystadleuaeth yr Aelodau: $1^{af}$
Blodau: $1^{af}$ : Ceris Jones, Mydroilyn
Coginio: cydradd $3^{ydd}$: Llangeitho
Crefft: $1^{af}$: Carwyn Davies, Llanwenog
Gwisgo i Fyny: $1^{af}$: Bro'r Dderi
Dawnsio: $1^{af}$: Felinfach
Dyma Dy Fywyd: $1^{af}$: Tregaron
Barnu Defaid Beltex: y tîm yn $3^{ydd}$ : Elin Rattray, Trisant $1^{af}$ a Dewi Jenkins, Talybont yn $1^{af}$ am roi rhesymau Cymraeg.
Rygbi: $1^{af}$ a Man of the Match i Dan Davies, Caerwedros
Coedwigaeth: $1^{af}$: Penparc
Ocsiwn Ffug: $3^{ydd}$: Pontsian
Barnu Merlod Adran A: $1^{af}$ fel tîm: Alaw Rees, Mydroilyn $3^{ydd}$; Rhodri Griffiths, Llangwyryfon $3^{ydd}$ a Gethin Morgan, Bro'r Dderi $3^{ydd}$
Ffensio: $1^{af}$: Llangeitho

Cyntaf ar ddiwedd yr wythnos!







# Cyfweliad â chyn aelod o'r mudiad
# Cecil Jones, Cyffionos, C.Ff.I Caerwedros



Sut ddaethoch i wybod am y mudiad? Fe symudais i ardal Caerwedros yn 12 oed ac roedd fy nghyfnither yn aelod yn barod.



Faint o gymorth y mae'r CFfI wedi bod i siapio eich bywyd presennol? Wedi bod yn llawer o gymorth i godi fy hunan hyder ac i gyfrannu i waith y gymdeithas. Rwyf ar hyn o bryd yn gadeirydd Cyngor Cymuned, ysgrifennydd Sioe Caerwedros a Chymdeithas yr Henoed. Rwyf yn Beirniadu ac yn aelod oes o gymdeithas ceffylau gwedd Gorllewin Cymru, ac wedi cystadlu yn y sioe frenhinol. Rwyf hefyd yn aelod o'r vintage- Dyffryn Teifi.

Beth oedd eich hoff weithgaredd? Barnu stoc, Cwis a'r Ddrama.

Beth oedd eich uchafbwynt fel aelod o'r mudiad? Ennill rheoli Fferm ar raddfa Cymru ac ennill ysgoloriaeth i fynd i'r Iseldiroedd a Gwlad Belg.

Pa lwyddiannau cawsoch o ran cystadlu? Barnu Welsh Blacks yn y Sioe Frenhinol, barnu gwartheg godro yn Three Counties Malvern a chael fy newis i fynd i farnu Bîff yn Smithfield.

Pwy wnaeth ddylanwadu arnoch yn y clwb? Vernon Jones Rhydfechan fel aelod hŷn y clwb, a'r arweinyddion Nen Jones ac Aneurin Jones.

Beth oedd y cyngor gorau a gawsoch pan oeddech yn y mudiad? Gwneud popeth i'r safon gorau y medrwch.

Hoff atgof o'r mudiad? Caerwedros yn ennill y rali yn 2002.

3 gair i ddisgrifio'r CFfI: Cydweithio, cystadlu a chymdeithasu.



Pa gyngor y byddech chi'n rhoi i aelodau presennol y mudiad? Cymerwch pob cyfle sy'n dod i'ch rhan.

# Clwb hyna'r Sir yn dathlu

Pen-blwydd hapus i glwb Felinfach ar ddathlu 75 mlynedd o fodolaeth. Tipyn o gamp yn wir ac mae'n braf i weld y clwb yn mynd o nerth i nerth. Tipyn o flwyddyn iddynt gan fod Cadeirydd y Sir, Emyr Evans yn gyn-aelod o'r clwb. Maent eisoes wedi cael prynhawn i gyn-aelodau i ddod at ei gilydd i hel atgofion dros baned ac wedi cynnal cyngerdd arbennig yn theatr Felinfach yn dangos y talent sydd wedi bod yn y clwb dros y blynyddoedd. Byddant yn cynnal cinio i ddathlu ar nos Sadwrn y 14eg o Dachwedd a noson o Fingo ar nos Lun y 14eg o Ragfyr ac mae croeso cynnes i bawb. Os hoffech brynu tag defaid, fel rhan o raffl fawr y clwb, cysylltwch â swyddog o'r clwb. Llongyfarchiadau, mwynhewch gweddill y dathlu a phob lwc am y 75 mlynedd nesa!















**Chwaraeon**

Criced: Llanwenog
Rownderi: Mydroilyn (cymysg)
Pêl-rwyd: Llanddewi Brefi
Dodgeball: Caerwedros
Pêl-droed iau: Llangeitho
Pêl-droed hŷn: Pontsian
Hoci: Pontsian
**TERFYNOL: 1af Pontsian, Caerwedros a Llanwenog**






**Llwyddiant ar lefel NFYFC**

Barnu Stoc dan 26: Dion Davies yn 4ydd
Barnu Stoc dan 16: Manon Turner yn 9fed
Ffensio: Llanddeiniol 5ed
Ymgeisio am swydd: Eiry Williams yn 4ydd
After Dinner Speaking: Tîm yn ail
Brains Trust: Tîm yn 3ydd
Arddangosfa Ciwb: Llanwenog yn 11eg



# Teithiau Tramor

## Menna'n y Rali Ewropeaidd

Fues i'n ddigon ffodus i gael fy newis fel rhan o dîm Cymru i fynychu'r Rali Ewropeaidd nôl ym mis Awst- a 'na beth o'dd wythnos llawn dop! Roedd rhannu'r wythnos gyda chant o bobl ifanc o bob cwr o Ewrop a mynychu gweithdai, gwaith grŵp a thripiau i ymweld â ffermydd moch, llaeth a biomas yn brofiadau ardderchog. Roedd dysgu am amaethyddiaeth gwahanol wledydd o ddiddordeb mawr imi ond hefyd gwnes i ddysgu llawer am fy hunan! Mi fydd atgofion melys a ffrindiau oes gennyf o ganlyniad i'r Rali. Mewn tri gair roedd yr wythnos yn un addysgiadol, cymdeithasol a meddwol!





## Interrailing

Nôl ym mis Awst aeth 8 o ferched Ceredigion ar daith Interrailing o gwmpas 7 dinas yn Nwyrain Ewrop am bythefnos. Roedd y daith yma yn rhan o daith grŵp a drefnwyd gan Teithiau Cambria. Teithiodd Nia Jones, Megan Lewis, Esyllt Ellis Jones, Gwenan Davies, Bethan Roberts, Siân Williams, Mererid Davies a Lisa Jones i Split a Zagreb yng Nghroatia, Budapest yn Hwngari, Bratislava yn Slofacia, Vienna yn Awstria, Prague yng Ngweriniaeth Siec a Berlin yn yr Almaen. Roedd y criw yn teithio o un ddinas i'r llall ar drên gyda'r daith hiraf yn 7 awr a'r un lleiaf yn 2 awr ac roeddent yn aros mewn hosteli ym mhob dinas. Dyma beth y gwnaethom: mynd ar deithiau cerdded o gwmpas y dinasoedd, mynd ar y segways yn Prague, nofio mewn llyn yn Zagreb, mynd i'r baths enwog yn Budapest, mynd i fwyty a oedd yng nghanol yr awyr yn Bratislava, ymweld â chofeb i'r Iddewon, siopa, canu, jojo! Taith i'w chofio!

Llaeth CYMREIG Cyf.




## Illinois, America

*Dyfan yn sôn am ei daith ef ac Angela Evans i America.*

**Beth gododd yr awydd arnat i ymgeisio am daith?** Awydd i weld mwy o'r byd. Gweld cyflwyniadau nifer o aelodau – a phob un ohonynt yn ddiddorol.

**Beth oedd hyd dy daith?** 3 wythnos


**Beth oedd yr uchafbwyntiau?** Ymweld â'r gwahanol ffermydd, yn enwedig Stone Ridge Dairy oedd yn godro 3,500 o wartheg tair gwaith y dydd. Hefyd ymweld â fferm oedd yn magu lloi i 6,000 o wartheg, gydag o leiaf 700 o loi ar laeth ar unrhyw adeg.

**Beth ddysgaist ti ar y daith?** Dysgais i dipyn am eu dull o ffermio, y gwahanol gropiau roeddent yn eu tyfu ac hefyd beth oedd y problemau a'r heriau oedd gan ffermwyr yn Illinois.

**Beth yw dy atgof mwyaf melys o'r daith?** Roedd y trip i gyd yn dda gan fy mod wedi cael gweld cymaint o wahanol bethau, fferm yn godro 3,500 o wartheg, magu lloi ar raddfa enfawr, cael 3 diwrnod yn Chicago, ymweld â game baseball, ymweld â'r Budweiser Factory ac hefyd cael cymdeithasu gyda'r gwahanol deuluoedd ac yfed tipyn o fudweiser a bwyta gormod o fyrgyrs a stêcs!

**Fydde ti'n annog aelodau eraill i fanteisio ar gynllun teithiau?** Ma' fe'n gyfle gwych i weld gwlad arall, cymdeithasu gyda ffermwyr ifanc mewn gwledydd eraill, a chael y profiad o aros gyda theuluoedd yn lle bod yno fel twrist.

**Pa wlad arall hoffech chi ymweld â hi?** Bydden i'n hoffi ymweld â Seland Newydd ac hefyd gweld mwy o Loegr, yr Alban ac Iwerddon achos mae llawer i weld yno.









## Rhodri - Yr Alban

**Beth gododd yr awydd arnat i ymgeisio am daith?** Ar ôl gweld cyflwyniadau aelodau eraill, penderfynais i ymweld â mwy o'r byd ac i weld dulliau eraill o fyw a ffermio.

**Beth oedd hyd dy daith?** Pythefnos.

**Beth oedd uchafbwyntiau dy daith?** Cwrdd ag aelodau newydd o'r mudiad ar draws y byd. Hefyd, gweld y dulliau gwahanol o ffermio roeddent yn eu ddefnyddio yn eu gwaith bob dydd a chael y cyfle i fynd i Sioe yr Ucheldir am bedwar diwrnod i gymdeithasu a chwrdd a phobl newydd.

**A ddysgaist di unrhyw sgiliau newydd?** Dysgais am ddiwylliant Yr Alban a'r ffyrdd yr oeddent yn byw. Hefyd, dysgais am ffyrdd roeddent yn tyfu cnydau mewn polytunel lle oedd dim llawer o waith oherwydd roedd popeth yn dyfrio eu hunain.

**Beth yw dy atgof mwyaf melys?** Mi enjoies i y daith yn fawr iawn, ond yr atgof mwyaf melys oedd cael fy nghroesawu gan deulu o'r Alban, am wythnos, a oedd â chysylltiad â Chymru, gan eu bod wedi bod lawr ar daith gyfnewid yng Ngheredigion bedair blynedd yn ôl ac aros gyda teulu'r Hatchers yn Gorsgoch.

**Fydde ti'n annog aelodau eraill i fanteisio ar gynllun teithiau?** Fydden, heb amheuaeth. Mae'n gyfle gwych i ymweld â'r byd ac i wneud ffrindiau oes.


**Pa wlad arall hoffech chi ymweld â hi?** Fydde'n i ddim yn malio mynd ar daith i Ganada i weld sut maent yn ffermio yno.

# Advert NFU wrth Anne / Catrin




## Atebion tro diwethaf...






**<u>Tîm Golygu</u>: Enfys Hatcher, Dion Davies, Elin Calan Jones, Sioned Davies, Lisa Jones a Rhiannon Davies.**

**Pob Lwc i bawb yn yr Eisteddfod!**

Diolch yn fawr iawn i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol sy'n sicrhau parhad y cylchgrawn.



## I'r Dyddiadur!

**<u>TACHWEDD:</u>**

1 Cyflweliadau Teithiau Tramor Cymru
9 Noson ar gyfer aelodau 18 neu iau
11 Hyfforddiant Barnu Carcas - Dunbia
18 Pwyllgorau'r Sir
21 Eisteddfod Cymru - Neuadd Fawr, Aber
27 Chwaraeon Dan Do - Llanddewi Brefi
30 Y Ffair Aeaf

**<u>RHAGFYR:</u>**

1 Y Ffair Aeaf
6 Siarad Cyhoeddus Saesneg
29 Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc

**<u>IONAWR:</u>**

11 Cwis y Sir
20 Pwyllgorau'r Sir
24 Siarad Cyhoeddus Cymraeg

**<u>CHWEFROR</u>**

15-19 Dramâu'r Sir
21 Cyfweliadau Aelod Hŷn a Iau